

ADRAN 6

Sut i fodloni anghenion dysgu a hyfforddi eich Cynorthwyr Personol?

Mae pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd:

- mae rhai pobl yn hoffi darllen am sut i wneud rhywbeth
- mae pobl eraill yn hoffi bod rhywun yn dangos iddynt, neu'n dweud wrthynt sut, ac felly efallai bod yn well ganddynt fynd ar gwrs ymarferol
- mae rhai pobl yn hoffi dysgu o brofiad ymarferol, rhoi cynnig ar bethau a chael adborth
- mae pobl eraill yn hoffi siarad a holi cwestiynau
- mae rhai pobl yn hoffi mynychu dysgu ffurfiol mewn ystafell ddosbarth lle cânt eu haddysgu mewn ffyrdd traddodiadol

Mae llawer o bobl yn hoffi amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o ddysgu. Siaradwch â'ch Cynorthwy-ydd Personol am beth fyddai'n well ganddo/ganddi. Meddyliwch am ba ddull dysgu fyddai orau gennych chi a'ch Cynorthwy-ydd Personol. Mae angen i chi fod yn gyfforddus â'r dull dysgu fydd yn cael eu defnyddio. Efallai eich bod eisiau dysgu a hyfforddi gyda'ch gilydd.

Mae dysgu'n broses barhaus a gallwch roi cymorth ac anogaeth gadarnhaol i'ch Cynorthwyr Personol i barhau i ddysgu a datblygu.

Bydd yn ddefnyddiol ysgrifennu anghenion dysgu cytûn mewn cynllun dysgu er enghraifft. Gallwch ddefnyddio neu addasu'r ffurflen neu'r enghraifft o ffurflen wedi'i chwblhau.

Nodi'r anghenion dysgu a hyfforddi

- Dylech ddod i adnabod eich Cynorthwy-ydd Personol a'i brofiadau/phrofiadau, gwybodaeth a sgiliau.
- Siaradwch am yr hyn y mae angen iddo/iddi ei wybod a'i wneud. Ystyriwch sut mae hyn yn gweddu a'ch gofynion personol a'ch cynllun cymorth. Defnyddiwch y swydd disgrifiad i'ch helpu.
- Gofynnwch ble mae'r bylchau mewn dealltwriaeth. Siaradwch am sut i'w bodloni.
- Defnyddiwch y ffurflen cynllun dysgu. Bydd hyn yn eich helpu i feddwl beth sydd ei angen ar eich Cynorthwy-ydd Personol ei angen o ran hyfforddiant, pa weithgareddau fydd yn helpu ei (d)dysgu, sut i gyflwyno'r hyfforddiant a phwy fydd yn ei ddarparu.

Penderfynu sut i fodloni'r angen

- Meddyliwch am ffyrdd gwahanol o ddysgu.
- Ystyriwch argaeledd, amseroedd, cyflenwi oriau a chostau.
- Gwnewch yn siŵr y bydd yr hyn yr ydych yn ei benderfynu yn bodloni eich gofynion.
- Trafodwch gyda'ch Cynorthwy-ydd Personol a'ch awdurdod lleol/gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol.

Ysgrifennwch beth fyddwch yn ei wneud a phryd. Gallwch ddefnyddio'r cynllun dysgu. Mae'r cynllun dysgu yn rhywbeth rydych yn ei lenwi wrth i'ch Cynorthwy-ydd Personol gwblhau gweithgareddau dysgu gwahanol.

Trefnu dysgu

- Trefnwch y dysgu a'r datblygu.
- Cefnogwch yr asesiad, lle bydd angen. Gallai hyn olygu eich bod yn rhoi sylwadau ar y modd y mae eich Cynorthwy-ydd Personol wedi dangos neu gymhwysu sgiliau a gwybodaeth yn ei (g)waith fel rhan o'r asesiad ar gyfer cymhwyster.

Gwirio cynnydd a diweddarau'r cynllun dysgu

- Gofynnwch a oedd y dysgu'n ddefnyddiol. Ystyriwch os yw eich Cynorthwy-ydd Personol yn gweithio'n wahanol ar ôl yr hyfforddiant. Gofynnwch am gael gweld y dystysgrif, lle caiff un ei darparu. Siaradwch am unrhyw faterion.
- Cadwch restr o'r dysgu a sut mae wedi helpu. Dylai fod copi gan y cyflogwr unigol a'r Cynorthwy-ydd Personol.

Adolygu a gwirio anghenion dysgu yn rheolaidd

- Gwnewch hyn yn ystod sesiwn oruchwylio, neu wrth i'ch gofynion newid. Mae goruchwylio yn ymwneud â rhoi'r cymorth a'r datblygiad angenrheidiol i'ch Cynorthwy-ydd Personol ac mae'n gyfle i adolygu anghenion dysgu.
- Diweddarwch y cynllun dysgu, yn dilyn goruchwylio ac adolygiadau.

Testunau dysgu a datblygu perthnasol

Mae'r rhain yn feysydd dysgu a datblygu i'w hystyried:

- cymorth cyntaf mewn argyfwng
- diogelwch rhag tân
- hylendid bwyd
- gwybodaeth am iechyd a diogelwch
- rheoli haint
- symud a gosod
- trin meddyginiaeth yn ddiogel
- diogelu oedolion/ plant sy'n agored i niwed

Dyma feysydd pwnc posibl eraill i'w hystyried a'u trafod gyda'ch Cynorthwyr Personol:

- technoleg gynorthwyol
- cymorth wedi'i gyfeirio gan y dinesydd
- sgiliau cyfathrebu
- magu hyder
- cyfrinachedd a phreifatrwydd
- ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- dementia
- cydraddoldeb o ran anabledd
- gofal ar ddiwedd oes
- cyflyrau iechyd fel anhwylder y sbectrwm awtistig ac amrywiaeth niwro
- egwyddorion a gwerthoedd byw'n annibynnol
- anawsterau dysgu
- deddfwriaeth fel Deddf Galluedd Meddyliol
- iechyd meddwl
- maeth
- cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- rhywioldeb a rhywedd
- model anabledd cymdeithasol
- lles a deilliannau

Bydd hyfforddiant ar feysydd penodol yn amrywio yn unol â gofynion cyflogwr unigol neu gallai ymwneud â chyflyrau penodol fel epilepsi. Cysylltwch â'ch gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol neu sefydliadau cymorth eraill i gael rhagor o wybodaeth a chyngor.

Gofalu am eich dysgu eich hun

Efallai bod gennych anghenion dysgu a datblygu hefyd, yn enwedig os yw cyflogi staff yn rhywbeth newydd i chi. Mae'r Cynorthwyyr Personol yn gweithio i chi, a chi yw'r rheolwr. Chi sy'n rhoi cyfarwyddyd o ran beth maen nhw'n ei wneud a phryd. Mae'r cyflogai'n gwrando ar y cyflogwr ac yn dysgu ganddo a gallai fod pethau y gall y cyflogwr eu dysgu oddi wrth y Cynorthwy-ydd Personol.

Mae'n bwysig eich bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n gallu eich helpu chi fod yn gyflogwr da a llwyddiannus. Dylai'r cymorth hwn gael ei gynnig gan awdurdodau lleol a'ch gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol lleol a gwasanaethau cymorth annibynnol eraill.

Pa bynciau eraill allai eich helpu?

- Pendantrwydd
- Ffiniau a disgwyliadau
- Magu hunanhyder
- Rheoli gwrthdaro ac anghydfod
- Sgyrsiau anodd
- Hawliau Anabledd
- Cyfraith cyflogaeth
- Iechyd a diogelwch/asesiad risg
- Hawliau Dynol
- Rheoli a goruchwylio Cynorthwy-ydd personol
- Pensiynau
- Recriwtio a dewis
- Rheoli straen
- Rheoli amser